Ministry of Justice

Gweinyddiaeth Cyfiawnder

**Alex Davies-Jones AS**
Is-ysgrifennydd
Gwladol Seneddol

**Andy Slaughter AS**, Cadeirydd
Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder
Tŷ'r Cyffredin
Llundain
SW1A 0AA

**Cyf MoJ:** SUB 122994

09 Ebrill 2025

Annwyl Andy,

**DIWEDDARIAD AR YR ADOLYGIAD O'R CYNLLUN DIGOLLEDU AM ANAFIADAU TROSEDDOL**

Rwy'n ysgrifennu atoch i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am adolygiad y Llywodraeth flaenorol o Gynllun Digolledu am Anafiadau Troseddol 2012 (y Cynllun).

Cyhoeddwyd yr adolygiad yn 2018 gan y weinyddiaeth flaenorol, fel rhan o'i Strategaeth Dioddefwyr. Cynhaliodd ymgynghoriadau cyhoeddus yn 2020, 2022 a 2023 ac ni ymatebodd i'r rhain cyn yr etholiad cyffredinol. Rwyf wedi ystyried y cynigion a'r opsiynau a gyflwynwyd yn y tri ymgynghoriad.

Roedd ymgynghoriad 2020 yn eang ac yn cyflwyno newidiadau posibl y gellid eu gwneud i'r Cynllun. Mae'r dirwedd y mae'r Cynllun yn rhan ohoni ac y cafodd y cynigion hynny eu gwneud ynddi, wedi newid yn sylweddol ers 2020. Yn sgil hyn, rwyf wedi penderfynu peidio ag ymateb yn sylweddol i'r ymgynghoriad hwn.

Roedd ymgynghoriadau 2022 a 2023 yn ystyried argymhelliad yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol, ac rwyf wedi paratoi dogfen gan y Llywodraeth yn ymateb i'r ddau ymgynghoriad hyn, a fydd yn cael ei chyflwyno gerbron y Senedd.

Wrth ystyried sut i fwrw ymlaen yng nghyswllt ymgynghoriad 2020, ystyriais ddatblygiadau mewn perthynas â'r Cynllun. Roedd yr ymgynghoriad yn ystyried amrywiaeth o gynigion i wneud y Cynllun yn symlach ac yn fwy hygyrch i ymgeiswyr. Fel rhan o hyn, roedd yn edrych ar y materion a nodir yn adroddiad y Comisiynydd Dioddefwyr yn 2019, *"Compensation without re-traumatisation: The Victims; Commissioner's review into Criminal Injuries Compensation".* Ers hynny, mae'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol, sy'n gweinyddu'r Cynllun yn annibynnol, wedi gweithio'n galed i wneud ei brosesau'n fwy hygyrch a sensitif. Er enghraifft, mae modd gwneud pob cais i'r Awdurdod Digolledu am Anafiadau Troseddol ar-lein bellach. Mae

ei staff wedi cael hyfforddiant ar fod yn ystyriol o drawma, ac mae ganddo weithwyr achos ymroddedig ar gyfer yr achosion mwyaf cymhleth ac anodd.

Mae’r dirwedd polisi ehangach hefyd wedi newid ers 2020, gyda darpariaeth y Llywodraeth ar gyfer dioddefwyr wedi datblygu. Roedd Deddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 wedi cyflwyno mesur sy’n ceisio gwella profiadau dioddefwyr o’r system cyfiawnder troseddol. Mae’n nodi’n glir bod angen gwasanaethau ar ddioddefwyr o dan y Cod Dioddefwyr ac mae’n cryfhau atebolrwydd asiantaethau am ddarparu hynny. Mae hyn yn cynnwys yr hawl i gael gwybod am iawndal. Rydym nawr yn gweithredu diwygiadau yn y Ddeddf, ac rydym yn bwriadu ymgynghori ar y Cod Dioddefwyr maes o law.

Rwy’n gwybod bod gan randdeiliaid bryderon am y Cynllun, ac roedd llawer o alw am newid ymysg yr ymatebion i’r ymgynghoriad. Rwy’n cydnabod y pryderon hynny a pha mor bwysig ydyw bod Comisiynydd Dioddefwyr Cymru a Lloegr, Pwyllgorau Seneddol a rhanddeiliaid eraill yn craffu ar y Cynllun yn barhaus.

Rwy’n rhoi copi o’r llythyr hwn yn Llyfrgell y Tŷ.

Yn gywir



**ALEX DAVIES-JONES AS**
**Gweinidog dros Ddioddefwyr a Thrais yn erbyn Menywod a Merched**